

Ordinhad 23

Penodi a Dyrchafu i Gadeiriau, Ddarllenyddiaethau, ac Uwch Ddarlithyddiaethau

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 29 Mehefin 2016

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Gwreiddiol

Fersiwn: 1.0

Dyddiad adolygiad diwethaf: Mehefin 2016

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2019

Mae proses Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol wedi'i rhewi ar hyn o bryd. Bydd y broses berthnasol a amlinellir yn yr Ordinhad hon yn cael ei diwygio maes o law.

ORDINHAD 23

PENODI A DYRCHAFU I GADEIRIAU, DDARLLENYDDIAETHAU, AC UWCH DDARLITHYDDIAETHAU

1. Personau sydd yn gymwys

1. Gall y Brifysgol benodi unigolyn i fod yn Athro, yn Ddarllenydd neu'n Uwch Ddarlithydd yn y Brifysgol yn dilyn trefn gystadleuol o recriwtio a dewis.
2. Gall y Brifysgol hefyd, trwy drefn o ddyrchafu, roi teitl Athro, Darllenydd neu Uwch Ddarlithydd i un o staff y Brifysgol.

2. Meini Prawf Cadeiriau, Darllenyddiaethau ac Uwch Ddarlithyddiaethau

Rhaid i rai sy'n ymgeisio i gael eu penodi neu eu dyrchafu i Gadair, Darllenyddiaeth neu Uwch Ddarlithyddiaeth ddangos eu bod yn cyflawni'r meini prawf cyhoeddedig mewn addysgu, ymchwil ac arweinyddiaeth. Bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu disgwyliadau'r Brifysgol.

3. Gweithdrefn Penodi i swyddi a hysbysebiri

Bydd ceisiadau am swyddi a hysbysebiri yn cael eu hystyried gan Banel Penodi priodol a gynullir yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

4. Gweithdrefn Dyrchafu i aelodau staff cyfredol

1. Unwaith y flwyddyn bydd y Brifysgol yn gwahodd staff i nodi eu bwriad i gyflwyno cais am ddyrchafiad academiaidd yn unol ag amserlen a gyhoeddir yn flynyddol. Bydd mentor yn cael ei aseinio i weithio gyda'r ymgeisydd a fydd yn cyflwyno cais yn unol â'r amserlen gyhoeddedig.
2. Bydd geirdaon mewnol yn cael eu trefnu yn unol â chanllawiau cyhoeddedig. Gwahoddir barn hefyd gan aseswyr allanol y mae eu henwau yn cael eu cynnig gan Athrofa'r ymgeisydd.
3. Bydd Panel Dyrchafiadau yn cael ei gynnull i ystyried yr holl geisiadau a dderbynnir yn unol â'r meini prawf a'r prosesau a bennir gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn flynyddol.

5. Adrodd

Bydd pob penodiad a wneir i Gadair, Darllenyddiaeth ac Uwch Ddarlithyddiaeth yn cael ei adrodd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb.